



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

2:00 yp 17 Gorffennaf 2019

Ystafell Pwyllgor 1, Llangefni

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth P Hughes

Cyngor Gwynedd

Cyng. Gareth Griffith
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Owain Williams

Swyddogion:

Gareth Jones	Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG)
Dewi Francis Jones	Prif Swyddog Cynllunio (CSYM)
Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Rebeca Jones	Rheolwr Polisi Cynllunio (UPCC)
Bob Thomas	Arweinydd Tîm – (UPCC)
Heledd Jones	Arweinydd Tîm – (UPCC)

Ymddiheuriadau:

Cyng. Richard Owain Jones (CSYM)
Cyng. Robin Williams (CSYM)
Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Gareth Roberts (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)

1. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2019 fel rhai cywir.

5. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) I'W MABWYSIADU: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY

Rhodddwyd trosolwg o beth yw pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol gan nodi mae ei brif bwrpas ydi bod o gymorth i ymgeiswyr wrth gyflwyno a pharatoi ceisiadau cynllunio ynghyd a bod o gymorth i'r sawl fydd yn gwneud y penderfyniad ar y cais, boed hynny'n Swyddogion, Cynghorwyr neu yn Arolygydd annibynnol.

Yng nghyswllt y CCA dan sylw nodwyd fod yna gyfnod ymgynghori cyhoeddus wedi cymryd lle rhwng Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019. Yn ogystal â hynny mae'r Canllaw wedi bod trwy broses craffu yn y ddau Gyngor ac wedi bod yn destun gwerthusiad beirniadol annibynnol gan arbenigwyr o fewn y maes Cynllunio Iaith.

Yn sgil y broses Craffu fe dderbyniwyd adborth gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Gwynedd ynghyd a Phwyllgor Sgriwtini Môn, mae'r tabl a gynhwysir ym mharagraff 4.2 ac 4.3 (yn ôl eu trefn) yn cofnodi'r ymateb yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, dderbyniwyd 88 sylw unigol (rhain i'w gweld yn Atodiad 1b o'r adroddiad). Nodwyd fod rhan fwyaf o'r sylwadau yn rhai adeiladol a bod yna gynnig o fan ddiwygiad i gynnwys y Canllaw yn aml yn cael ei gynnig yn sgil sylw a dderbyniwyd. Ble nad oes yna argymhelliad i ddiwygio'r Canllaw yn sgil y sylw, mae yna nodyn o eglurhad/rheswm yn cael ei nodi dros y penderfyniad hynny. Yn aml mae'r rheswm hynny'n ymwneud a'r ffaith fod y mater a gyfeirir ato o fewn y sylw wedi ei gynnwys mewn rhan arall o'r Canllaw.

Nodwyd fod yna gopi cyflawn o'r Canllaw wedi ei gynnwys yn Atodiad 2, sydd wedi ymgorffori'r newidiadau a awgrymwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Materion a godwyd:

- Oes yna ymateb i'r farn gyfreithiol a dderbyniwyd ar ran Cymdeithas yr Iaith.
- Gofynnwyd am eglurder o ran pryd fyddai angen Asesiad/Datganiad (beth yw'r trothwyon). Cyfeiriwyd at y tabl a gynhwysir ym Mhara 4.2 o'r Canllaw a'r cwestiwn sydd wedi cael ei godi gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd sydd yn ymwneud a'r un mater.
- Holwyd sut mae'r trothwyon o ran pryd gofynnir i ymgeisydd gyflwyno Datganiad/Asesiad yn cymharu hefo'r gofynion presennol (hynny yw'r gofynion sydd wedi ei osod allan yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Cyngor Gwynedd sydd yn ymwneud a Chynllunio a'r Iaith Gymraeg).
- Gofynnwyd a oes yna unrhyw enghreifftiau o ddatblygiadau penodol ble na fyddai ystyriaeth yn cael ei roi i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Oes yna rhai mathau o geisiadau a fyddai'n gallu llithro drwy'r rhwyd.
- Holwyd ynglŷn â statws 'Canllawiau Cynllunio Atodol' gan mae 'canllawiau' yn unig ydynt. A oes yna unrhyw arweiniad wedi ei gynnwys o fewn y Canllaw o ran beth fyddai'r goblygiadau pe fyddai'r ymgeisydd ddim yn cydymffurfio hefo'r Canllawiau hyn.
- Nodwyd y ffaith fod yna broses craffu ac ymgynghori hirfaith wedi bod wrth baratoi'r Canllaw, gan gynnwys proses o werthuso annibynnol gan arbenigwyr allanol yn y maes dan sylw a chan hynny nodwyd fod yr aelod yn gyfforddus hefo'i gynnwys a'r rhesymeg tu ôl iddo. Nodwyd hefyd, nad oedd Cymdeithas yr Iaith wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllaw Drafft.

Ymateb:

- Cadarnhawyd fod yna ymateb ffurfiol wedi cael ei gyflwyno i Gymdeithas yr Iaith sydd yn cadarnhau safbwynt y Cynghorau o ran y farn gyfreithiol. Mae'r ymateb yn nodi'n glir nad oes yna lyffethair gyfreithiol wedi ei adnabod pam na allai'r Cyd Bwyllgor symud ymlaen gyda'r gwaith o gloriannu'r ymgynghoriadau a phenderfynu ar fabwysiadu'r Canllaw.
- Mae'r Polisi o fewn y CDLI ar y Cyd ynghyd a'r arweiniad sydd wedi ei gynnwys o fewn y Canllaw yn nodi'n glir pryd y byddai angen cyflwyno Datganiad/Asesiad ieithyddol ac yn cynnwys arweiniad pendant o ran hynny. Ymhellach mae yna arweiniad wedi ei gynnwys o ran y dull o gyflwyno'r gwybodaeth (templedi). Cryfder y Polisi a'r Canllaw ydi ei fod yn hyblyg i newidiadau mewn amgylchiadau a all ddylanwadu ar y dull o asesu effaith ar yr iaith.
- Nodwyd fod y Canllaw yn cynnig fwy o hyblygrwydd o ran y gofyniad i gyflwyno Datganiad/Asesiad iaith ynghyd a sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg pan yn briodol. Mae'r Canllaw yn unigryw ac yn cynnwys methodoleg ac arweiniad cadarn. Cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei gyflwyno ynghyd a'r cais.
- Nodwyd y bydd y Canllaw yn mynd i roi sicrwydd o gydymffurfiaeth hefo'r weithdrefn ac yn rhoi'r Cynghorau mewn sefyllfa gryfach o ran cadarnhau hynny.
- Pe byddai yno gais cynllunio yn cael ei gyflwyno sydd yn gwyro oddi ar yr arweiniad a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol yna fe fyddai rhaid bod yn hollol eglur o ran pam fod y bwriad yn gwyro. Fe fyddai'r sawl sydd yn gwneud y penderfyniad ar unrhyw gais (Swyddog, Aelodau, Arolygydd Cynllunio Annibynnol) yn rhoddi ystyriaeth i gynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth asesu a phenderfynu ar gais cynllunio.
- Nodwyd y sylwadau

Penderfyniad - Derbyniodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yr argymhelliad yn unfrydol, sef:-

- i) Cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllawiau Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy;
- ii) Bod hawl yn cael ei roi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ymgymryd â newidiadau gweinyddol terfynol i'r Canllaw i sicrhau fod holl faterion croesyfeirio oddi fewn iddo yn gywir.